

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 GORFFENNAF 2019.**

**PRESENNOL:** Cynghorydd - Eric Roberts, Cadeirydd

Cynghorwyr J. Abbott MBE, A. D. McCann, C. McDermott S. Conrad-Smith, A. D. McCann, Geoff McGinn, S. Magee, P. M. Parry, H. B. Rowlands, D. Rhys Thomas J.P. a D. A. Williams

1. **YMDDIHEURIADAU** – Cynghorydd K. Roberts.
2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB** - A. McCann etem 12.1 cais cynllunio HHP/2019/181
3. **COFNODION Y CYFARFOD 25 MEHEFIN 2019 a 17 GORFFENNAF 2019.**  
Penderfynwyd: cymeradwyo'r cofnodion (cyn. McCann, eilio H. B. Rowlands).
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
  - 4.1 Roedd CSYM yn ymwybodol bod angen clirio'r tywod oddi ar y promenâd, ond roedd mwy o stormydd i ddod a byddai'r gwaith yn cael ei wneud ar ôl hynny.
  5. **GOHEBIAETH – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**
    - 5.1 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
    - 5.2 Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Toiledau Cyhoeddus – bydd dim Cyngor Treth ar rain o Ebrill 2020.
    - 5.3 Partneriaeth Tirlun Ynys Cybi - Adroddodd y Cynghorydd McCann fod y Bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais loteri, felly byddai arian ar gael ar gyfer caffi ac amgueddfa yn adeilad Neuadd y Farchnad a hefyd am fyrddau treftadaeth i Bae Trearddur a Rhoscolyn.
    - 5.4 Diweddariad RSPB / Cynllun rheoli traffig Ynys lawd - Roedd hyn yn cynnwys cynnig ar gyfer Gorchymyn Traffig arbrofol gyda chyfyngiadau dros dro ar barcio a chyflymder, trefniadau ar gyfer cyflenwadau, parcio a lle i droi ar gyfer bysiau, arwyddion ac ati. Roedd y ffaith bod y gwaith wedi'i ddechrau ar yr adeg brysur yn peri pryder ac roedd Aelodau yn dal yn erbyn penderfyniad yr RSPB i godi tal am barcio.
    - 5.5 Ymgynghori - Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.
    - 5.6 Ymgynghoriad Polisi Gosod Cyffredin Tai - holiadur wedi'i gwblhau
    - 5.7 Comisiwn Ffiniau A Democratiaeth Leol Cymru - Roedd yn amlwg nad oedd 30 o Gynghorwyr Sir yn ddigonol a bod angen o leiaf tri arall. Roedd wardiau gyda sawl aelod yn gweithio'n dda cyhyd â bod y cynghorwyr yn gweithio gyda'i gilydd, ond ystyriwyd bod rhai yn rhy fawr i'w rheoli yn iawn. Cytunwyd i edrych ar hyn eto fis nesaf.

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 GORFFENAF 2019.**

**6. SAFLE HAMDDEN**

Cytunwyd yn unfrydol i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i gyfreithwyr y Cyngor i baratoi'r dogfennau cyfreithiol a bwrw ymlaen â'r camau llys i sicrhau bod y brydles yn cael ei throsglwyddo.

7. Nodwyd bod y prif gysylltiadau ar y cadwyni ar siglenni babanod wedi gwisgo, byddai'r Clerc yn gofyn i MacVenture chwarae i gymryd eu lle. Byddai'r Cynghorydd Geoff McGinn a'r cynghorydd Eric Roberts yn edrych ar adnewyddu'r stopydd ar y giât.

**8. ADRODDIADAU CYNGHORWYR**

**8.1 Cynghorydd Eric Roberts**

Dywedodd fod Ffair y Neuadd Bentref yn cael ei chynnal y dydd Sadwrn canlynol.

**8.2 Cynghorydd Bill Rowlands**

Roedd wedi mynychu cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned ar 18fed Gorffennaf y prif bynciau trafod oedd yr heriau ariannol, y Polisi Dyrannu Tai Cyffredin (cysylltiad lleol) a'r Arolwg Etholiadol.

**8.3 Cynghorydd David Williams**

Dywedodd fod coed a gwrychoedd wedi gordyfu dros y palmant rhwng ar Lon St Ffraid rhwng Heol Penrallt a'r clwb golff.

**8.4 Cynghorydd Paula Parry**

Roedd wedi derbyn cwynion bod y toiledau cyhoeddus yn fudr.

**9. CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG**

Cyflwynwyd a nodwyd: Adroddiad am y cyfnod 1.6.2019 i 30.6.2019 ynghyd â chysoniad banc a Chyfrifon Banc.

**10. TALIADAU - Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-**

Cyflog	£456.32	Archwilydd Mewnol	£120
A McCann	£13.95		

**11. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- 11.1 FPL/2019/31 - Morannedd Bach, Trearddur Bay – cytunwyd

**12. CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 12.1 HHP/2019/181 Ty'n Rhos, Lon Crecrist, Bae Trearddur.

Cais ôl-weithredol ar gyfer addasu ag ehangu – Mynegwyd pryder am y nifer o geisiadau ôl-weithredol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd hwn.

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 GORFFENNAF 2019.**

**12.2 FW: VAR/2019/49 – tir wrth Trearddur House, Bae Trearddur**

Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (11)(Cynllun Draenio) o caniatâd cynllunio rhif 46C168A/FR (Codi annedd) a'r cais dilynol ar gyfer materion a gadwyd yn ôl cyfeirnod 46C168D/DA fel bod dŵr budr or annedd yn cael ei ollwng i waith trin carthffosiaeth ar y safle yn hytrach nag i'r system garthffosiaeth gyhoeddus – Caiff y swyddogion cynllunio yn delio â hwn.

**13. NEXT MEETING 24.9.2019**